PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pencampwyr Dros Blant:

## Maniffesto ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc cyn Etholiadau’r Senedd yn 2026



# Rhagymadrodd

Mae gan Gymru draddodiad cryf o ddangos ymrwymiad i ddiogelu hawliau a lles babanod, plant a phobl ifanc.

Rydym am i bob baban, plentyn ac unigolyn ifanc gael plentyndod hapus ac iach.

Rydym am i bob baban, plentyn ac unigolyn ifanc ffynnu a blodeuo.

Rydym am i bob baban, plentyn ac unigolyn ifanc fod yn ddiogel rhag niwed a cham-drin, ac i fod yn rhydd rhag pob math o wahaniaethu a thlodi.

Rydym am sicrhau bod gan y rhai mwyaf bregus gyfle cyfartal i ffynnu a llwyddo, ac rydym yn galw am gydraddoldeb i bob baban, plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru.

Credwn fod etholiad y Senedd yn 2026 yn gyfle unigryw i roi babanod, plant a phobl ifanc yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau gwleidyddol.

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol ac ymgeisydd i wneud babanod, plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth yn ystod yr ymgyrch etholiadol a thrwy gydol tymor nesaf y Senedd, gan gydnabod eu doniau a'u cyfraniadau, eu nodweddion a'u hanghenion unigryw, gyda'r bwriad o hyrwyddo a diogelu eu hawliau dynol.



# Eich Addewid

Rydym am weld pob gwleidydd a phlaid wleidyddol drwy gydol tymor nesaf y Senedd yn **Bencampwyr cryf ac ymroddedig dros Blant**, gan wasanaethu i amddiffyn eu hawliau a'u lles, a darparu cyfleoedd i glywed eu barn er mwyn llywio pob penderfyniad a fydd yn effeithio arnynt.

**A fyddwch chi'n Bencampwr dros Blant yn ystod yr ymgyrch ac ar ôl yr etholiad fis Mai nesaf?**

☑ *'Byddaf yn Bencampwr dros Blant yn ystod ac ar ôl etholiad y Senedd yn 2026'*

# Trosolwg o'ch Camau Gweithredu

Dileu Tlodi Plant

Mwy o ffocws ar gymorth cynnar, ym yrraeth ac atal

Plentyndod iach

Addysg o ansawdd da

Cadw plant yn ddiogel rhag niwed

Amgylcheddau iach

Cartrefi o ansawdd da



Gwrando ar blant a'u cynnwys

Buddsoddi mewn plant

Cryfhau strwythurau yn y Llywodraeth a'r Senedd

Plant fel blaenoriaeth ddeddfwriaethol a pholisi

Cryfhau datganoli

Strwythurau gwneud penderfyniadau lleol a rhanbarthol



# Eich Camau Gweithredu

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol ac ymgeisydd i ymrwymo i flaenoriaethu'r camau gweithredu canlynol drwy ddangos eu hymrwymiad i fabanod, plant a phobl ifanc a dod yn **Bencampwr dros Blant**.

"Mae'n bwysig oherwydd bod gwleidyddion i fod i gynrychioli pawb, ac yn aml mae plant a phobl ifanc yn cael eu heithrio o hyn neu eu hanghofio, gan nad yw ein barn ni bob amser yn cael ei gweld fel rhywbeth pwysig na dilys. Dyna pam ei bod hi mor bwysig bod gwleidyddion yn bencampwyr dros blant gan y byddai hynny'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau mawr" - Gwirfoddolwr Cymru Ifanc

"Yn aml, nid yw oedolion yn gwrando ar bobl ifanc, felly mae'n gyfrifoldeb ar wleidyddion i wrando arnyn nhw oherwydd bod gan wleidyddion BŴER a pharch gan oedolion eraill" - Gwirfoddolwr Cymru Ifanc

"Credaf fod hyn yn bwysig gan fod gwleidyddion mewn safle awdurdod ac mae pobl yn gwrando arnyn nhw. Felly, pan fyddan nhw'n siarad neu'n gwneud y penderfyniadau cywir dros blant, y plant hyn yn ddiweddarach fydd y dyfodol gwell a byddant yn cael effaith gadarnhaol ar y byd yn y dyfodol" - Gwirfoddolwr Cymru Ifanc



# Dileu Tlodi Plant

Rydym am weld diwedd ar dlodi plant yng Nghymru. Mae tlodi yn dinistrio plentyndod gyda llawer gormod o blant yn tyfu heb i'w hanghenion sylfaenol o ran goroesi a datblygu gael eu bodloni. Rydym am weld llywodraeth yn cymryd camau i atal plant a theuluoedd rhag disgyn i fyd o dlodi, a phan fyddant yn gwneud hynny, yn cymryd camau pendant i'w cael allan o'r byd hwnnw. Mae hyn yn gofyn am fabwysiadu dull croestoriadol, gan fod rhai grwpiau o blant mewn mwy o berygl oherwydd y rhwystrau ychwanegol y maent yn eu hwynebu oherwydd eu hunaniaeth, eu cefndir, eu hamgylchiadau neu eu nodweddion.

Mae hyn yn golygu

- Sicrhau bod gan deuluoedd incwm digonol i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas, drwy ddarparu mynediad at swyddi o safon â chyflog da, grantiau a budd-daliadau hael yng Nghymru, gan gynnwys 'Taliad Plant' newydd yng Nghymru[1], ochr yn ochr â gwell mynediad at gyngor a chymorth yn ymwneud â lles.
- Sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwgu yn yr ysgol, drwy ailasesu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim wrth weithio tuag at hawl gyffredinol, ochr yn ochr â chryfhau'r ddarpariaeth brecwast am ddim.
- Darparu gofal plant o safon, fforddiadwy a hygyrch sy'n canolbwyntio ar blant ar gyfer pob oed ac anghenion, wedi'i ddarparu gan weithlu sy'n cael ei dalu'n dda ac sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr.
- Cyhoeddi a chyflwyno cynllun gweithredu ar dlodi plant gyda thargedau statudol a cherrig milltir mesuradwy fel y gellir olrhain, monitro ac adrodd ar gynnydd yn effeithiol.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU i bwyso am ddiwygio'r system nawdd cymdeithasol er mwyn sicrhau ei bod yn darparu'r 'rhwyd ddiogelwch' angenrheidiol i bob plentyn a theulu fyw mewn urddas.

[1] *Mae 'taliad plant' yn fudd-dal wythnosol a delir bob pedair wythnos i bob plentyn dan 16 oed sy'n byw yn yr Alban.*

# Mwy o ffocws ar gymorth cynnar, ymyrraeth ac atal

Rydym am weld atebion ac ymyriadau sy'n helpu i atal problemau rhag codi a bod uwch gyfeirio'n cael blaenoriaeth llawer mwy. Pan fydd plentyn neu aelod o'r teulu yn wynebu her neu pan nodir angen am y tro cyntaf, dylai cymorth, cyngor a chefnogaeth briodol fod ar gael cyn gynted â phosibl.

Mae hyn yn golygu

- Ailffocysu adnoddau tuag at atebion a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n darparu cymorth cynnar, ymyrraeth a chefnogaeth ataliol, gan gynnwys yn ystod y cyfnod amenedigol, gyda ffocws ar wella canlyniadau datblygiadol plant a chadw teuluoedd gyda'i gilydd pryd bynnag y bo modd.
- Sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cael mynediad at gyngor, eiriolaeth a chymorth yn brydlon er mwyn helpu i osgoi problemau rhag gwaethygu.
- Cynnal lefelau digonol o gyllid ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu cymorth arbenigol ac mewn argyfwng pan fo angen hyn.
- Rhaid darparu gofal, cariad a chymorth i blant na allant fyw gyda'u teulu geni am ba reswm bynnag am ba bynnag hyd y mae ei angen.






# Plentyndod iach

Rydym am i blant fod yn rhydd o iechyd corfforol a meddyliol gwael, ac i dderbyn y cymorth a'r gefnogaeth pan fydd angen

Mae hyn yn golygu

- Cymryd camau i wella'r amodau a'r amgylchiadau y mae rhai plant yn byw ynddynt drwy fynd i'r afael â thlodi, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chryfhau gwasanaethau sy'n helpu plant a theuluoedd i reoli cyflyrau iechyd yn well.
- Gwella mynediad at ofal sylfaenol a gwasanaethau gofal iechyd arbenigol i blant a rhieni, gan gynnwys buddsoddi mewn gwasanaethau cyffredinol o ansawdd da a dulliau teulu cyfan sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghenion sy'n dod i'r amlwg ac atal problemau meddyliol a chorfforol rhag gwaethygu.
- Sicrhau bod gan wasanaethau adnoddau da a'u bod yn hygyrch ar adeg yr angen ar gyfer plant sydd angen ymyriadau arbenigol.



# Addysg o ansawdd da

Rydym am i ysgolion a cholegau fod yn lleoedd diogel, croesawgar sy'n meithrin sgiliau lle mae gan bob plentyn gyfleoedd i chwarae, dysgu a ffynnu.

Mae hyn yn golygu

- Sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at addysg o ansawdd da gan gynnwys y rhai a allai fod angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol gyda'u presenoldeb a'u dysgu, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a gofalwyr ifanc.
- Sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel rhag niwed ac yn rhydd rhag bwlio, yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ac nad oes neb yn codi cywilydd arnynt, nad ydynt yn cael eu stigmateiddio, eu gwahaniaethu yn eu herbyn na'u heithrio.
- Bod ysgolion a cholegau yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n eu defnyddio, lle mae cyfleoedd a phrofiadau plant yn gyfartal. Lle gall pob plentyn, beth bynnag fo'u hamgylchiadau teuluol, gyrraedd yr ysgol a'r coleg trwy ddulliau trafnidiaeth fforddiadwy, yn gallu cymryd rhan lawn ym mhob gwers, trip ysgol a gweithgareddau allgyrsiol, ac nad ydynt yn cael eu gorfodi i deimlo'n wahanol na mynd heb rywbeth oherwydd rhwystrau ariannol, gwisg ysgol neu brydau ysgol costus.



# Cadw plant yn ddiogel rhag niwed

Rydym am i bob plentyn fod yn ddiogel rhag niwed, cam-drin ac ecsploetiaeth.

Mae hyn yn golygu

- Mabwysiadu ymatebion hirdymor, cynaliadwy, sy'n seiliedig ar drawma i ddiogelu plant rhag trais, cam-drin, ecsploetiaeth, esgeulustod, aflonyddu a niwed.
- Sicrhau bod plant sydd wedi cael profiad o gael eu cam-drin yn gallu cael mynediad at wasanaethau therapiwtig priodol sy'n canolbwyntio ar y plentyn pan fo angen. Dylai hyn gynnwys cymorth arbenigol i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.
- Cymryd camau i gadw plant yn ddiogel ar-lein a sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag cynnwys niweidiol ac anaddas i'w hoedran.
- Sicrhau bod plant yn derbyn cyngor a gwybodaeth sy'n briodol i'w hoedran am berthnasoedd iach, agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol.







# Amgylcheddau iach

Rydym am i bob plentyn gael mynediad at fannau diogel i chwarae, cysylltu a rhyngweithio.

Mae hyn yn golygu

- Darparu mynediad at barciau, mannau gwyrdd a hamdden o ansawdd da, lle mae plant yn rhydd i chwarae yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu.
- Gwella mynediad at ofodau cymunedol, celfyddydol a diwylliannol sy'n darparu cyfleoedd a mannau cynhwysol i blant gysylltu, sgwrsio ac ymgysylltu, ac sy'n cefnogi eu datblygiad a'u lles, ac yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae hyn yn cynnwys cynnig Gwaith Ieuenctid gwell fel rhan o fframwaith cenedlaethol clir.
- Buddsoddi mewn opsiynau trafnidiaeth am ddim a chost isel i helpu plant i gael gwell mynediad at ysgolion, colegau, cyfleusterau cymunedol a hamdden.
- Galluogi plant i symud yn rhwydd heb y perygl a achosir gan draffig a llygredd.



# Cartrefi o ansawdd da

Rydym am i bob plentyn allu byw a ffynnu mewn cartref diogel, a bod yn rhydd rhag y perygl o fod yn ddigartref.

Mae hyn yn golygu

- Sicrhau bod gan deuluoedd a phobl ifanc sy'n gadael gofal fynediad at gartrefi o ansawdd da, sy'n fforddiadwy, diogel a chynnes.
- Nad oes unrhyw blentyn yn mynd yn ddigartref.
- Pan fo angen llety ar frys, bod mathau diogel a hygyrch o dai ar gael yn agos at amgylchedd y plentyn er mwyn lleihau'r aflonyddwch cymaint â phosibl.
- Darparu cymorth ychwanegol i blant bregus sy'n symud tuag at annibyniaeth, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal.



# Gwrando ar blant a'u cynnwys

Rydym am i lais plant fod wrth wraidd y broses wleidyddol.

Mae hyn yn golygu

- Darparu cyfleoedd ystyrlon i blant ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnynt, clywed yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ac ymateb i'r hyn maen nhw wedi'i ddweud.
- Sicrhau bod strwythurau cymryd rhan genedlaethol a lleol yn cael eu hariannu'n ddigonol, a'u bod yn darparu cyfleoedd i blant drafod y materion sydd o bwys iddynt.
- Sicrhau y gall plant o bob oed, nodwedd ac amgylchiadau ymgysylltu'n llawn, gan gynnwys gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i ymgysylltu â phlant iau a phlant nad ydynt yn cael eu clywed neu sydd ag anghenion cymorth ychwanegol, megis plant anabl, gofalwyr ifanc, plant sy'n derbyn gofal a phob plentyn â nodweddion gwarchodedig.



# Buddsoddi mewn plant

Rydym am i'r lefel uchaf o adnoddau sydd ar gael, gael eu dyrannu i wasanaethau i blant.

Mae hyn yn golygu

- Darparu lefelau cyllid hirdymor, digonol ac am fwy nag un flwyddyn ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector sy'n darparu cymorth, gweithgareddau, cyngor a gwybodaeth o safon i blant a'u teuluoedd, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus.
- Cydnabod bod cyllid isadeiledd yn hanfodol i alluogi sefydliadau i ddatblygu a ffynnu, ac i gynnal eu staff a gwasanaethau i blant.
- Sicrhau bod pob penderfyniad cyllidebol yn ystyried yn llawn eu heffaith ar blant a'u bod yn cael eu llywio gan asesiadau effaith cadarn ar hawliau plant.
- Blaenoriaethu buddsoddiad mewn rhaglenni a gwasanaethau cenedlaethol sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant.



# Plant fel blaenoriaeth ddeddfwriaethol a pholisi

Rydym am weld fframwaith deddfwriaethol a pholisi cynhwysfawr sy'n blaenoriaethu canlyniadau gwell i bob plentyn yng Nghymru.

Mae hyn yn golygu

- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn llawn yng nghyfraith Cymru a fframwaith cyfreithiol cryf drwy Ddeddf Plant newydd i Gymru.
- Cyflwyno Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol sy'n adeiladu ar y cynnydd a wnaed ers datganoli, ond sy'n mynd i'r afael â'r diffygion yn ogystal â'r bylchau rhwng rhethreg polisi a realiti ar lawr gwlad.



# Cryfhau strwythurau yn y Llywodraeth a'r Senedd

Rydym am weld Llywodraeth a Senedd Cymru sydd â phlant ar flaen y gad yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae hyn yn golygu

- Penodi gweinidog cabinet dros fabanod, plant a phobl ifanc a fydd yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad cryf, a fydd yn hyrwyddo ac yn amddiffyn eu hawliau a'u lles ar bob cyfle, ac a fydd bob amser yn gwrando ar yr hyn sydd gan blant i'w ddweud ac yn gwbl atebol am y camau gweithredu y maent yn eu cymryd.
- Bod pob aelod o'r cabinet yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau bod hawliau a lles plant yn cael eu blaenoriaethu a'u gwireddu ar draws pob adran o'r llywodraeth, gyda Phrif Weinidog yn arwain o'r tu blaen.
- Bod Pwyllgor Cabinet Plant yn Llywodraeth Cymru wedi'i ailsefydlu i sicrhau gwell cydgysylltu a chraffu ar faterion plant.
- Cadw pwyllgor craffu trawsbleidiol yn y Senedd ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc a fydd yn sicrhau bod gweinidogion yn gyfrifol am y penderfyniadau a wnânt.



# Cryfhau datganoli

Rydym am wneud yn siŵr bod gan Gymru'r holl bwerau sydd eu hangen arni i ddarparu gwell polisïau ac atebion i blant.

Mae hyn yn golygu

- Sicrhau bod strwythurau ymgysylltu rhynglywodraethol cadarn ar waith rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU i wneud yn siŵr bod anghenion plant yn flaenoriaethau gwleidyddol a buddsoddi, gan gynnwys meysydd polisi sydd wedi'u cadw i San Steffan, megis mewnfudo a nawdd cymdeithasol.

- Ailasesu cyfrifoldebau datganoledig mewn rhai meysydd polisi sydd wedi'u cadw ar hyn o bryd i San Steffan, megis Lles a Chyfiawnder Ieuenctid, er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd y pwerau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i gyflawni'n well ar ran plant yng Nghymru.



# Strwythurau gwneud penderfyniadau lleol a rhanbarthol

Rydym am weld bod materion sy’n effeithio ar blant ar lefelau lleol a rhanbarthol yn cael eu cydlynu’n well ac yn gyson.

Mae hyn yn golygu

- Sicrhau bod partneriaethau lleol a rhanbarthol yn blaenoriaethu’r materion sy’n effeithio ar blant, a bod trefniadau monitro, atebolrwydd ac adrodd yn ddigon tryloyw a chadarn.
- Gwella trefniadau comisiynu ac ymgysylltu sefydliadau’r trydydd sector fel partneriaid cyfartal ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli’n briodol mewn strwythurau gwneud penderfyniadau a’u cefnogi i wneud y defnydd gorau o gronfeydd cyhoeddus cyfyngedig.
- Sicrhau bod Cynlluniau Lles rhanbarthol sy’n cael eu cyflawni gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys ymrwymiadau cadarn i gefnogi plant yn eu cymunedau.



*Ymwadiad: Mae gan y sefydliadau isod gylchoedd gwaith a meysydd arbenigedd gwahanol. O'r herwydd, gwneir galwadau'r maniffesto hwn fel rhan o gynghrair ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn yr holl sefydliadau unigol a restrir.*

Home for Good
Safe Families

BHC 365
BLACK HISTORY CYMRU

FAITH IN FAMILIES
HugsNotHandouts

OXFAM
CYMRU

Scouts
Cymru

PLANT DEWI
Lle mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

meic

BRIDGEND
YOUNG
CARERS

BASW
Cymru
The professional association for social work and social workers

Kinship
CYMRU
Ar gyfer teulu a ffrindiau sy'n camu i'r bwlch i fagu plentyn.

RCC
Integration Justice Equality
Integreiddio Cyfiawnder Cydraddoldeb
Race Council Cymru

NATIONAL MINORITY ETHNIC
YOUTH
FORUM
WALES

promo
cymru

VFCC
VOICES FROM CARE CYMRU

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

Windrush Cymru Elders
Promoting Inclusion of Elders in Wales

Adferiad
Cefnogi Pobl • Supporting People

Family Fund
Cymorth i blant anabl
Helping disabled children

Clybiau Plant Cymru
Kids' Clubs

Chwarae Cymru
Play Wales




WALKERS
Digestives

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Parc Ymchwil Gwyddorau
Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
(SPARC), Caerdydd, CF24 4HQ
029 2034 2434
info@childreninwales.org.uk

@childreninwales.org.uk
@childreninwales
@youngwalesciw
Children in Wales

**childreninwales.org.uk**